



Canllaw i athrawon

Atal camymddwyn mewn asesiadau mewnol

Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw cefnogi athrawon wrth baratoi ar gyfer asesiadau mewnol.

Mae llawer o gymwysterau CBAC/WJEC Eduqas yn cynnwys asesiadau di-arholiad (NEA) yn ogystal ag arholiadau ar yr amserlen. Gall asesiadau di-arholiad gael eu marcio'n fewnol gan athrawon a'u cymedroli'n allanol gan CBAC neu efallai y bydd CBAC yn eu marcio.

Gall asesiadau di-arholiad gynnwys gwaith cwrs, asesiadau dan reolaeth a phortffolios.

Dod o hyd i'r arweiniad sydd ei angen arnoch

Mae cyfarwyddiadau ac arweiniad i athrawon ynghylch cynnal asesiadau di-arholiad ar gael ym manylebau a chanllawiau CBAC yn ogystal â chyfarwyddiadau a hysbysiadau'r CGC. Bydd yr adran ganlynol yn mynd â chi at y dogfennau perthnasol ar gyfer pob math o gymhwyster.

CBAC/Eduqas TGAU, UG a Safon Uwch

Wrth osod tasgau Asesiadau Di-arholiad, cynnal a marcio'r asesiad, rhaid i athrawon ddilyn y gofynion ym manyleb y cymhwyster a'r dogfennau cysylltiedig yn ogystal â dogfen y CGC [Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad](#)

CBAC Tystysgrifau Lefel Mynediad a Phroject Estynedig (cydran 3)

Wrth osod tasgau, cynnal a marcio'r asesiad, rhaid i athrawon ddilyn y gofynion ym manyleb y cymhwyster a'r dogfennau cysylltiedig yn ogystal â dogfen y CGC [Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs](#).

CBAC Lefel 1 a 2 Dyfarniad Galwedigaethol/Techneol, Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, Tystysgrif Lefel Mynediad (cydran 2), Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Wrth osod tasgau, cynnal a marcio'r asesiad, rhaid i athrawon ddilyn y gofynion ym manyleb y cymhwyster a'r dogfennau cysylltiedig yn ogystal â'r ddogfen [Cyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal asesiadau dan reolaeth](#).

[Cymwysterau Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio, Sgiliau Hanfodol Cymru, Llwybrau Mynediad, Llwybrau Ieithoedd, Cymraeg Gwaith.](#)

Wrth osod tasgau, cynnal a marcio'r asesiad, rhaid i athrawon ddilyn y gofynion ym manyleb y cymhwyster a'r dogfennau cysylltiedig.

Mae ein holl fanylebau a'n dogfennaeth gysylltiedig ar gael ar dudalennau gwe ein cymwysterau [CBAC](#) ac [Edugas](#).

Osgoi camweinyddu a chamymddwyn

Maen rhaid i bob myfyriwr gael cyfle teg wrth gwblhau ei Aseidiadau Di-arholiad. Ni ddylent gael mantais nac anfantais o gymharu â myfyrwyr eraill. Er mwyn sicrhau tegwch, mae'n bwysig bod y cyfarwyddiadau a'r arweiniad yn cael eu dilyn yn gyson a bod myfyrwyr yn gwybod yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Gellir ymchwilio i ddiffyg cydymffurfiaeth fel camweinyddu neu gamymddwyn. Er mwyn sicrhau tegwch ac atal camymddwyn, rhaid i athrawon wneud y canlynol:

- cynnal cyfrinachedd deunyddiau asesu byw
- cadw gwaith myfyrwyr yn ddiogel ac yn gyfrinachol
- bod yn ofalus wrth beidio â darparu arweiniad na chymorth uwchlaw'r hyn a ganiateir yn y fanyleb – rhaid i athrawon beidio â chynhyrchu gwaith i fyfyriwr na gwella gwaith myfyriwr. Ni ddylid darparu atebion enghreifftiol na fframiau ysgrifennu ar gyfer myfyrwyr sy'n benodol i'r dasg (megis amlinelliad, penawdau paragraffau neu benawdau adrannau)
- peidio â chynorthwyo myfyrwyr wrth gynnal arholiadau llafar drwy sibrwd cymorth neu atebion
- sicrhau nad yw myfyrwyr yn defnyddio deunyddiau anawdurdodedig wrth ymgymryd â'r asesiad
- rhybuddio myfyrwyr am lôn-ladrad a bod yn rhaid i'r gwaith y mae'r myfyrwyr yn ei gynhyrchu ar gyfer aseidiadau fod yn waith y myfyriwr ei hun yn unig
- bod yn ymwybodol o'r rheolaethau cywir a chydymffurfio â nhw pan fydd myfyrwyr yn cymryd eu hasesiad, megis gofynion goruchwyllo, y lwfans amser, a all myfyrwyr weithio gyda'i gilydd ar dasgau neu a oes rhaid iddynt weithio'n unigol
- sicrhau bod pob myfyriwr yn cwblhau'r ffurflen ddilysu ar ôl cwblhau'r gwaith a bod y ffurflen wedi'i gwrthlofnodi gan yr athro
- adrodd am amheuan o gamymddwyn myfyriwr neu achosion gwirioneddol

Mae gofynion Asesu Di-arholiad yn amrywio rhwng gwahanol fathau o gymwysterau a phynciau gwahanol ac felly mae dilyn yr arweiniad yn y fanyleb berthnasol a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig yn allweddol i atal camymddygiad.

Rydym wedi llunio cyflwyniad i helpu athrawon i wneud penderfyniadau gwrthrychol wrth asesu: 'Gwrthrychedd wrth asesu perfformiad dysgwyr'. Gellir cyrchu'r ddogfen hon o Porth CBAC neu drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol: [Asesu'n wrthrychol \(cloud.microsoft\)](#)

Mae CGC wedi cyhoeddi [gwybodaeth](#) ddefnyddiol i athrawon a myfyrwyr ynghylch defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) mewn aseidiadau.